Polisi Gwirfoddolwyr

(Adolygwyd 15 Ionawr 2015)

1. Recriwtio Gwirfoddolwyr:

Mae CGC yn gweithredu ac wedi'i redeg yn llwyr gan wirfoddolwyr er mwyn cyrraedd nodau ac amcanion CGC.

Mae'r nodau a'r amcanion yn gofyn am amrywiaeth o sgiliau i'w cyflawni'n llwyddiannus. Cynhelir trafodaethau â darpar wirfoddolwyr i weld pa dasgau y maen nhw'n dymuno eu gwneud, eu sgiliau a'u haddasrwydd a sut gallant gyflawni eu potensial orau.

2. Diogelwch Gwirfoddolwyr:

Bydd CGC yn cymryd gofal llawn dros ragweld unrhyw risg y gall gwirfoddolwyr ei wynebu wrth weithio ar brosiectau CGC a thros ddiogelu yn eu herbyn.

3. Gwasanaeth fel y gwêl CGC yn dda

Mae CGC yn derbyn gwasanaeth pob gwirfoddolwyr gyda'r ddealltwriaeth fod gwasanaeth o'r fath fel y gwêl CGC yn dda. Mae'r gwirfoddolwyr yn cytuno y gall CGC ar unrhyw adeg, am ba bynnag reswm, benderfynu terfynu perthynas y gwirfoddolwr â'r corff.
Gall gwirfoddolwr ar unrhyw adeg, am ba bynnag reswm, benderfynu torri ei berthynas â CGC. Dylid rhoi gwybod am benderfyniad o'r fath cyn gynted ag sy'n bosibl i aelod o'r Cyngor Cyffredinol.

4. Cyfle Cyfartal

Mae gan CGC bolisi cyfle cyfartal o ran pob gwirfoddolwr.

5. Diffiniad o 'Wirfoddolwr'

Gwirfoddolwr yw unrhyw un sy'n gwneud tasg o dan gyfarwyddyd CBC ac ar ei rhan, heb gael iawndal neu ddisgwyl cael iawndal mwy nag ad-dalu treuliau a gododd wrth wneud ei d/ddyletswyddau fel gwirfoddolwr.